

CYNGOR SIR POWYS COUNTY COUNCIL

SWYDD DDISGRIFIAD

Teitl y Swydd: Uwch Arolygydd Adeiladu, gyda Rheolwr Technegol Dosbarth 4 dewisol

Rhif y Swydd: ZBN0027

Cod Gwerthuso Swyddi: HAYRGD134

Gwasanaeth: Rheolaeth Adeiladu

Lleoliad/Canolfan Waith: Llandrindod/Y Drenewydd

Mae hon yn swydd ystwyth (gweithio gartref yn bennaf gyda phresenoldeb achlysurol mewn swyddfeydd ardal). Gellir galw ar y rôl hefyd i ymgymryd â gwaith y tu allan i'r maes gweithrediadau arferol, gan gynnwys gweithio y tu allan i ffin ddaearyddol Powys sy'n cefnogi cynghorau cyfagos.

Graddfa: Graddfa 13
Pwynt 37 i Bwynt 39
£48,226 i £50,269 y flwyddyn
£24.99 i £26.05 yr awr

Oherwydd y 4 blynedd, gall adnewyddu graddau cyflog trwyddedu amrywio (i fyny neu i lawr) yn ddibynnol ar y Dosbarth o drwydded a gafwyd.

Oriau'r contract: 37 awr, Parhaol

Atebol i: Arweinydd Proffesiynol ar gyfer Rheolaeth Adeiladu

Cyfrifoldeb dros: Dîm o Arolygwyr Adeiladau Cofrestredig sy'n gweithredu o fewn cwrdd eu trwydded.

Atebol am: Yn atebol yn ôl y gyfraith am bob penderfyniad a wneir wrth oruchwylio unrhyw Arolygwyr Adeiladu Cofrestredig (AAC) Dosbarth 2 a neilltuwyd sy'n gweithredu y tu allan i gwmpas eu trwydded. Gan gynnwys unrhyw AAC y gallai fod yn ofynnol i chi eu goruchwylio mewn awdurdodau lleol cyfagos.

Atebol i: Arweinydd Proffesiynol ar gyfer Rheolaeth Adeiladu, ac uwch reolwyr ynghyd â rheolwyr rheolaeth adeiladu mewn awdurdodau lleol eraill lle cawsoch eich penodi i weithredu fel goruchwylydd

Crynodeb

 Am y rôl:

Mae Rheolaeth Adeiladu yn chwilio am arolygydd adeiladu cofrestredig i arwain tîm o arolygwyr adeiladau cofrestredig i gyflawni gweithgareddau a swyddogaethau cyfyngedig yng nghanol a gogledd y sir.

Yn ogystal â rheoli llinell, bydd y rôl yn gyfrifol am gydymffurfio â Deddf Diogelwch Adeiladu 2022 a Rheolau Safonau Gweithredol Cymru o fewn y tîm, gan gynnwys goruchwyliaeth drwyddedig dan y Ddeddf a hyfforddi staff.

Byddwch yn gweithredu fel prif gynghorydd i Gyngor Sir Powys ar faterion yn ymwneud â gweithgareddau cyfyngedig sy'n dod o fewn cwrpas eich trwydded, gan gynnwys gweithredu o dan bwerau dirprwyedig ar gyfer cyflwyno hysbysiadau penderfyniad statudol a gorfodi dan Ddeddf Adeiladu 1984 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Diogelwch Adeiladu 2022) ar ran y Cyngor.

Fel Uwch Arolygydd Adeiladu, byddwch yn annibynnol wrth wneud penderfyniadau, a byddwch yn darparu arweinyddiaeth a goruchwyliaeth i bob dosbarth o AAC o fewn eich tîm, gan gynnwys bod yn atebol o dan eich trwydded am eu gweithgareddau a phenderfyniadau sy'n ymwneud â gweithgareddau cyfyngedig sydd y tu allan i gwmpas eu dosbarth trwydded.

Cefnogi'r Arweinydd Proffesiynol i gyflawni dyletswyddau'r Cyngor drwy reoli gweithgareddau dyddiol y tîm rheolaeth adeiladu sy'n ymwneud â rheoliadau adeiladu, strwythurau peryglus a dymchweliadau

Ymgymryd â gweithgareddau sy'n gysylltiedig â chyflwyno a mesur perfformiad ac adrodd yn unol â'r system rheoli ansawdd y gwasanaeth ISO9001 fel sy'n ofynnol gan yr Arweinydd Proffesiynol. I gyd yn unol â safonau gweithredol llywodraeth Cymru ar gyfer rheolaeth adeiladu.

Byddwch yn ymgymryd â'ch gwaith yn gwbl unol â'ch rhwymedigaethau cyfreithiol, rheoliadol a phroffesiynol gan gynnwys dilyn eich cod ymddygiad proffesiynol fel arolygydd adeiladu trwyddedig ac fel aelod siartredig o'ch corff proffesiynol.

Ar adegau, efallai y bydd angen i chi gefnogi awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, wrth gyflawni gweithgareddau cyfyngedig, sy'n dod o fewn cwrpas eich trwydded.

Bod yn gyfrifol am fynychu a gwneud penderfyniadau statudol ynghylch strwythurau a dymchweliadau peryglus o fewn ardal ddynodedig o'r sir, gan gynnwys mewn rhannau eraill o'r sir pan fo angen gwasanaeth.

Fel rheolwr llinell, byddwch yn pennu ac yn monitro hyfforddiant a datblygu Hyfforddeion Dosbarth 1 o fewn y gwasanaeth ac yn cefnogi datblygiad AAC sy'n dymuno cael trwyddedau uwch.

Nodyn ar drwyddedu - Terfynau Cymhwysedd

Rhaid i ddeiliad y swydd ond cyflawni swyddogaethau a/neu weithgareddau heb oruchwyliaeth sydd o fewn terfynau eu trwydded a'u cymhwysedd. Rhaid ymgymryd â swyddogaethau/gweithgareddau ar adeiladau ac ati sydd y tu hwnt i derfynau cymhwysedd fod o dan oruchwyliaeth swyddog cymwys addas, oni bai bod natur y gwaith sy'n cael ei asesu/archwilio'r un fath â'r math o waith y byddent fel arfer yn ei wneud o fewn terfynau cymhwysedd wedi'i ddilysu.

**Amdanoch chi:**

Rhaid i'r person:

a) meddu ar drwydded Arolygydd cofrestredig adeiladu cofrestredig gyffredinol o leiaf Dosbarth 2B.

b) dangos profiad o weithio mewn rheolaeth adeiladu sy'n gymesur â'r swydd.

c) dangos profiad o weithio yn unol â safonau a phrosesau rheoli ansawdd ISO 9001 sy'n ymwneud â rheolaeth adeiladu.

d) cael yr awydd i gefnogi'r gwasanaeth tuag at gyflawni ei nodau a'i amcanion ar gyfer gwelliant parhaus.

e) dangos gallu naturiol i arwain a mentora eraill i'w galluogi i gyflawni eu nodau fel arolygydd adeiladu cofrestredig a gyda'i gilydd yn cwrdd â nodau'r gwasanaeth.

f) cael y gallu i feithrin ac annog agweddau cadarnhaol o fewn tîm trwy arweinyddiaeth weladwy.

**Eich dyletswyddau:**

Bydd deiliad y swydd yn:

a) rheoli tîm o arolygwyr adeiladu cofrestredig yng ngogledd y sir wrth ymgymryd â gweithgareddau a swyddogaethau cyfyngedig sy'n ymwneud â rheolaeth adeiladu.

b) bod yn rhan o dîm adolygu rheoli ISO 9001, gan gyflawni a mesur cydymffurfiaeth â rheol safonau gweithredol ar gyfer Cymru a rheolaethau adeiladu system rheoli ansawdd ISO 9001.

c) ymgymryd, a bod yn atebol am oruchwyliaeth pobl eraill yn y tîm sy'n ymwneud â gweithgareddau a swyddogaeth gyfyngedig fel sy'n ofynnol o dan drwydded.

d) aseinio a monitro llwythi gwaith o fewn y tîm

e) cynnal adolygiadau perfformiad ac ansawdd o'r tîm a'r gwasanaeth ehangach yn ôl y gofyn.

Cynorthwyo i hyfforddi a datblygu pob AAC a Hyfforddai Dosbarth 1. Drwy wneud hynny, byddwch yn galluogi Hyfforddeion Dosbarth 2 i fynd gyda chi ar y safle ac arsylwi eich holl weithgareddau a swyddogaethau cyfyngedig, gan gynnwys gwirio cynlluniau.

Am ragor o wybodaeth am y swydd, gallwch gysylltu ag: Ian Maddox

Recruitment@powys.gov.uk

Bydd eich cyfrifoldebau'n cynnwys:

Gweithredu o fewn fframwaith cyfreithiol y gyfundrefn diogelwch adeiladau yng Nghymru ynghyd â pholisïau corfforaethol a sefydlwyd gan y Cyngor:

1. Ymgymryd â gweithgareddau a swyddogaethau cyfyngedig rheolaeth adeiladu (ar ran Cyngor Sir Powys o dan bwerau dirprwyedig), sy'n ymwneud ag asesu cynlluniau llawn ac arolygiadau safle ar gyfer cydymffurfio â rheoliadau adeiladu.

Gan gynnwys darparu cyngor rheoleiddio i'r Cyngor, y cyhoedd ac asiantaethau statudol ar faterion rheoleiddio adeiladu a ganiateir o dan eich dosbarth trwydded.

2. Ar gais y rheolwr rheolaeth adeiladu, gweithredu y tu allan i ffiniau gwleidyddol a daearyddol Powys at ddibenion darparu gweithgareddau cyfyngedig sy'n gysylltiedig â'ch trwydded i awdurdodau lleol eraill y mae angen cymorth arnynt i gyflawni eu rhwymedigaethau statudol.
3. Gweithredu fel mentor a hyfforddwr i bob dosbarth o Arolygydd Adeiladu Cofrestredig o dan eich cyfrifoldeb rheoli llinell, gan gynnwys hyfforddeion dosbarth 1.
4. Ymgymryd â gweithgareddau cyfyngedig o fewn eich dosbarth trwydded mewn ardaloedd o Bowys sydd y tu allan i'ch ardal ddaearyddol arferol fel sy'n ofynnol gan reolwyr.
5. Rheoli a darparu arweinyddiaeth i bob dosbarth o arolygydd adeiladu cofrestredig o fewn eich tîm i'w cefnogi i ymgymryd â gweithgareddau cyfyngedig a gwmpesir gan eu dosbarth trwydded.
6. Ar gais gan reolwyr, bod yn gwbl atebol o dan drwydded am oruchwylio AAC sydd wedi'u neilltuo i chi i gyflawni gweithgareddau cyfyngedig sydd y tu allan i gwmpas eu trwydded. Gan gynnwys cymeradwyo ac ardystio eu gwaith yn ffurfiol o dan bwerau dirprwyedig.
7. Cefnogi rheolwr RA i sicrhau bod yr holl weithgareddau cyfyngedig a gyflawnir gan AAC sy'n gweithredu y tu allan i'w cwmpas trwydded yn cael eu goruchwylio gan AAC â thrwydded briodol.
8. Fel AAC/UAA trwyddedig, bydd deiliad y swydd yn arbenigwr ar reoleiddio adeiladu yng Nghyngor Sir Powys ar bob mater sy'n dod o fewn cwmpas eich trwydded gan alluogi'r Cyngor i gyflawni ei swyddogaethau cyfyngedig ar faterion sy'n cydymffurfio, torri rheolau a gorfodi o dan Ddeddf Adeiladu 1984 a rheolau safonau gweithredol Cymru.
9. Monitro llwythi gwaith dyddiol pob dosbarth o arolygydd adeiladu o fewn eich tîm, gan gynnwys dosbarthu a dyrannu gwaith ymhlith y tîm yn seiliedig ar gymhwysedd a chwmpas y trwyddedau a gedwir.
10. Cefnogi'r Arweinydd Proffesiynol wrth ddarparu dyfynbrisiau ffioedd rheoliadau adeiladu a chynlluniau arolygu i gwsmeriaid Cyngor Sir Powys.
11. Cefnogi'r Arweinydd Proffesiynol ar y cyd â'r Swyddog Safonau Gweithredol wrth fesur perfformiad y gwasanaeth, wedi'i osod o fewn cyd-destun rheolau safonau gweithredol llywodraeth Cymru ar gyfer rheolaeth adeiladu yng Nghymru a'r gwasanaethau system rheoli ansawdd ISO 9001.
12. Gweithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer strwythurau peryglus y tu allan i oriau (yn anffurfiol yn unig).



Gofynion Gwirio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd:

Mae angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan rydym yn eich penodi i'r swydd.

Gofynion Iechyd a Diogelwch:

Mynd i'r afael â pholisïau a threfniadau iechyd a diogelwch mewn dull rhagweithiol er mwyn sicrhau bod safonau uchel o arferion gwaith diogel yn cael eu cynnal.

Datganiad Cydraddoldebau:

Cefnogi a gweithredu'n frwd egwyddorion ac arferion cyfle cyfartal fel y nodir ym Mholisi Cydraddoldeb y Cyngor.

Gofynion y Gymraeg

Mae sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol

SYLWCH;

Er y manylion sydd yn y swydd ddisgrifiad, bydd gofyn i'r sawl sydd yn y swydd wneud unrhyw waith ar gais y Rheolwr o dro i dro, hyd at neu ar lefel sy'n cyfateb â 'Phrif Gyfrifoldebau'r Swydd.'

Y PERSON

Ydych chi'n meddwl mai chi yw'r person cywir i'r rôl? Os felly, dangoswch eich bod chi'n bodloni'r meini prawf canlynol yn eich cais.

Profiad

Hanfodol

- Profiad cynhwysfawr o gymhwyso gofynion statudol a deddfwriaethol Deddf Adeiladu 1984, prif reoliadau adeiladu a rheoliadau'r arolygydd cymeradwy yn unol â chwmpas a gofynion dal trwydded Dosbarth 3G AAC.
- Profiad o ddelio â ffurfiau safonol ac ansafonol o ddylunio ac adeiladu sy'n dod o fewn cwmpas eich trwydded.
- Profiad o ymgymryd â gweithrediadau gorfodi ar ran yr awdurdod lleol dan Ddeddf Adeiladu 1984.
- Profiad o reoli staff proffesiynol a thechnegol rheolaeth adeiladu ar faterion gweithredol a thechnegol o ddydd i ddydd.
- Mentora a goruchwylio arolygwyr adeiladu cofrestredig eraill gan gynnwys rheolwyr llinell, cyfoedion a'r rhai sy'n gweithio danoch chi fel rhan o ddatblygiad proffesiynol unigolyn.
- Profiad o ddelio â sgysiau anodd mewn perthynas â'r rhai sy'n gweithio danoch chi, cyfoedion ac uwch-swyddogion.
- Profiad o bolisiau cwynion corfforaethol gan gynnwys y prosesau o ymgymryd â
- chymau disgyblu o fewn awdurdod lleol.
- Profiad o gynrychioli eich awdurdod lleol mewn cyfarfodydd rhanbarthol a chenedlaethol sy'n gweithredu fel penderfynwr ar ran rheolaeth adeiladu.
- Profiad o weithredu heb oruchwyliaeth gan gynnwys defnyddio technoleg symudol o bell.
- Profiad o gydweithio ag arbenigwyr eraill a gweithwyr dylunio proffesiynol wrth ddod o hyd i ddatrysiadau sy'n cydymffurfio ar gyfer problemau cymhleth

Dymunol

- Dal trwydded Rheolwr Technegol Dosbarth 4 gan gynnwys eich trwydded AAC.
- Profiad o gadeirio cyfarfodydd yn fewnol o fewn tîm ac yn allanol gyda chwsmeriaid a rhanddeiliaid ehangach.
- Caffael a darparu systemau TG swyddfa gefn rheolaeth adeiladu.

Gwybodaeth

Hanfodol

- Gwybodaeth ymarferol am Ddeddf Adeiladu 1984, rheoliadau adeiladu (ar gyfer Cymru a Lloegr) a deddfwriaeth gysylltiedig sy'n ymwneud â thechnegau adeiladu safonol ac ansafonol ar adeiladau domestig ac annomestig.
- Dealltwriaeth o Ddeddf Diogelwch Adeiladu 2022, rôl llywodraeth Cymru a'r Rheolydd Diogelwch Adeiladu yng Nghymru.
- Dealltwriaeth ymarferol o gyllid rheolaeth adeiladu a'i ofynion deddfwriaethol.
- Dealltwriaeth gynhwysfawr o amgylchedd masnachol a gweithredu uniongyrchol rheolaeth adeiladu, gan gynnwys bodloni gofynion y rheolau safonau gweithredol newydd yng Nghymru.
- Sgiliau ac arferion rheoli sy'n gysylltiedig ag arwain timau o staff cymwys proffesiynol, gan gynnwys datblygiad a pherfformiad y staff.
- Gwybodaeth gynhwysfawr am y codau ymddygiad a moeseg broffesiynol sy'n gysylltiedig â bod yn arolygydd adeiladu cofrestredig a syrfêwr siartredig/peiriannydd adeiladu. Gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â gwrthdaro buddiannau.
- Dealltwriaeth o brosesau gweithredol statudol a dewisol o fewn rheolaeth adeiladu a'u gwahaniaethau.

- Profiad o ddarparu gwasanaethau rheolaeth adeiladu o ansawdd o fewn system rheoli ansawdd ISO 9001.
- Gwybodaeth am y rheolau safonau gweithredol ar gyfer rheolaeth adeiladu yng Nghymru
- Gwybodaeth ymarferol am ddefnyddio a datblygu systemau TG swyddfa gefn rheolaeth adeiladu a rhaglenni Microsoft.
- Gwybodaeth a chymhwyso technegau a phrosesau a ddefnyddir i benderfynu a yw dyluniadau cymhleth yn cydymffurfio â gofynion canllawiau dylunio arferol. Gan gynnwys y gallu i ddeall a gwneud penderfyniadau gan ddefnyddio egwyddorion adolygiadau dylunio ansoddol a meintiol.

Cymwysterau a Hyfforddiant

Hanfodol

- Fel ymarferydd rheolaeth adeiladu ers sawl blwyddyn, byddwch yn gallu dangos hen hanes a thystiolaeth o ddarparu gwasanaethau rheolaeth adeiladu o ansawdd ar draws ystod eang o fathau a chymhlethdodau adeiladu, gan gynnwys goruchwyllo gwaith pobl eraill.
- Meddu ar drwydded AAC Gyffredinol o leiaf (Dosbarth 2A a mwy neu drwydded Arolygydd Adeiladu Cofrestredig Dosbarth 3G).
- Aelod Siartredig CABE (ar statws peiriannydd) neu MRICS.
- Aelod Cyswllt Sefydliad y Peirianwyr Tân (A I Fire E).
- Tystiolaeth o ymgymryd ag asesiad dilysu cymhwysedd i CABE Dosbarth 3G neu Gymhwysedd Diogelwch Adeiladu Bandiau Sylfaen B neu C
- Cadw cofnodion DPP cyfredol sy'n ymwneud â Rheolaeth Adeiladu (y 3 blynedd diwethaf).

Dymunol

- Gweithio tuag at neu'n aelod llawn o Sefydliad y Peirianwyr Tân (M I Fire E)
- Dal trwydded AAC Rheolwr Technegol Dosbarth 4.

Rhinweddau Personol

Hanfodol

- Dangos awydd i ddatblygu eich gwybodaeth a'ch profiad gyda'r nod o gael neu ymestyn cwmipas eich trwydded.
- Dangos priodoleddau o fod yn aelod da o'r tîm.
- Gweithiwr cydwybodol a gweithgar mewn modd sy'n dangos integriti a thegwch, wrth dangos bod yn agored ac yn onest bob amser.
- Cyfathrebwr da.
- Y gallu i ddelio â sefyllfaoedd anodd a sgysiau mewn ffordd bwyllog.
- Yn fedrus wrth ddarparu rhesymau perswadiol i aelodau o'r cyhoedd, gweithwyr proffesiynol eraill a masnachwyr o'r pwysigrwydd i weithredu er eu lles gorau.
- Y gallu i gynghori a pherswadio cyd-swyddogion ac uwch reolwyr pryd i weithredu er eu lles gorau eu hunain, y gwasanaeth a'r cyngor ehangach.
- Y gallu i gymhwyso meddwl dadansoddol i ddatrys problemau gyda thuedd i ddeall rhyngweithiadau a chydberthnasau'r rhannau cyfansoddol o fewn dyluniad adeiladau sy'n ffurfio'r broblem honno, er mwyn cynorthwyo datrysiad boddhaol.
- Y gallu i gynnig gwahanol safbwyntiau ar gyfer cyflawni cydymffurfiaeth drwy rannu gwybodaeth ac arbenigedd ar gyfer problem.
- Yn erbyn cymhlethdod adeilad, y gallu i feddwl yn greadigol i gynnig datrysiadau arloesol i broblemau a gyflwynir gan ddylunwyr a pheirianwyr.
- Y gallu i fod yn feirniadol wrth werthuso gwybodaeth gan eich galluogi i wneud dadleuon rhesymegol a gwneud penderfyniadau gwybodus.

- Y gallu i wrando ar eraill yn eu dadleuon rhesymegol a bod yn addasadwy ac yn agored i syniadau newydd.

Sgiliau

Hanfodol

- Y gallu i fesur a chymhwyso sgiliau rheoli meddal i gyd-destun penodol.
- Hyddysg mewn TG, gyda phrofiad o ddefnyddio rhaglenni Microsoft a'r rhyngwrdd.
- Trwydded yrru ddilys.
- Sgiliau cyflwyno da.
- Y gallu i addasu i newid mewn ffordd gadarnhaol.
- Dull pragmatig o weithio
- Parodrwydd i fentora a helpu eraill i gyflawni eu nodau proffesiynol

Rheolwr recriwtio: Ian Maddox
Dyddiad: Awst 2025



Ein gwerthoedd:

Proffesiynol

Rydym yn ymddwyn gyda phroffesiynoldeb ac integriti ym mha bynnag rôl yr ydym yn ei chwarae yn y cyngor

Cadarnhaol

Mae ein hagwedd yn gadarnhaol ym mhopeth a wnawn

Blaengar

Mae ein hymagwedd yn rhagweithiol a chyfrifol wrth gynllunio am y dyfodol

Agored

Rydym yn hysbysu'n gilydd gan rannu gwybodaeth ac ymddwyn â gonestrwydd ac integriti

Cydweithiol

Rydym ni'n gweithio'n adeiladol ac â pharodrwydd ar fentrau ar y cyd



Sut i ymgeisio

Bydd angen i chi gwblhau'r cais ar-lein, mae'n syml, dilynwch y broses gam wrth gam.

Gair i gall:

- Darllenwch y Swydd Ddisgrifiad a Manyleb y Person yn ofalus a'r dystiolaeth eich bod chi'n bodloni'r holl feini prawf hanfodol yn eich datganiad cefnogi.
- Gwerthwch eich hun a rhowch enghreifftiau ble y bo'n bosibl
- Rhestrwch y cymwysterau sydd gennych sy'n berthnasol i'r swydd, yn ôl y manylion ym manyleb y person.

- Sicrhewch fod un o'ch canolwyr o'ch cyflogwr mwyaf diweddar neu os mai hon yw eich swydd gyntaf beth am ofyn i athro ysgol neu diwtor, ond sicrhewch eich bod yn adnabod y canolwr ar lefel broffesiynol.
- Byddwch yn onest a dywedwch wrthym am unrhyw fylchau yn hanes eich cyflogaeth
- Cwblhewch y cais yn gyflawn



Camau nesaf

Y dyddiad cau ar gyfer ymgeisio yw 30/01/2026.

Ar ôl cyflwyno byddwn yn anfon e-bost atoch i roi gwybod i chi ein bod ni wedi derbyn eich cais.

Byddwn yn creu rhestr fer o'r ceisiadau ar 04/02/2026. Byddwn yn anfon e-bost atoch os ydych chi'n llwyddiannus ai peidio. Felly, cadwch lygad ar eich mewnlwch!

Bydd y cyfweiliadau'n digwydd ar 11/02/2026.

Dymunwn bob hwyl i chi gyda'ch cais.